YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] IONAWR, 1896. [RHIF 97

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

EIN MAES CENADOL.

YN ystod Cyfarfodydd Blynyddol y Gymdeithas Undodaidd Frytanaidd a Thramor, a gynnaliwyd yn Nghaerdydd ddiwedd mis Hydref diweddaf, darllenwyd papyr ar y testyn uchod gan y Parch. H. E. Dowson, ac ar gais lluaws o'n cyfeillion, yr ydym yn rhoddi y papyr gerbron darllenwyr YR YMOFYNYDD mewn diwyg Gymreig.

Mae y pwnc o waith cenadol yn meddwl pawb o honom, yn fwy felly nag ar unrhyw adeg yn fy nghof I. 'Rwy'n meddwl fod hwn yn un o ganlyniadau dychweliad y Dr. Brooke Herford, o America. Daeth efe yn ol i wlad ei enedigaeth yn llawn o awydd angerddol i ledaenu y ffydd seml a broffeswn, a than ei ddylanwad ef yn benaf y mae y Mudiad Rhagblaen newydd wedi ei gychwyn, a'r Gymdeithas Undodaidd Frytanaidd a Thramor wedi ei bendithio a'r drysorfa y bu cyfranwyr haelionus yn foddion i'w chwyddo. Nid wyf yn golygu dweyd fod y gymdeithas wedi derbyn digon, nac yn agos ddigon, i gario allan y gwaith y mae wedi dori allan iddi ei hun. I'r gwrthwyneb, mae fel Oliver Twist—yn y modd mwyaf taer yn gofyn am ragor; ac un o amcanion y fath gynnulliad â hwn, mewn ardal boblog a chynnyddol fel hon, yn sicr i luaws o gyfeillion yr achos Undodaidd, yw creu dyddordeb newydd yn yr anturiaeth genadol fawr y mae'r gymdeithas wedi ymgymmeryd â hi gydag aiddgarwch adnewyddol. Y gymdeithas yw canolfan cenadol Undodiaeth yn y wlad hon. Trwy bob cyfrwng sydd o fewn ei gallu, mae yn ymgymmeryd â gwneyd ein hopiniynau yn wybyddus ac i draethu ar led ein cenadwri. Mae yn gwneyd llawer trwy gylchrediad ein llenyddiaeth, ac o swyddfa y gymdeithas yn Essex Hall, Llundain, gwaith yr hon a gerir yn mlaen mor alluog ac mor egniol gan yr ysgrifenydd ardderchog, y Parch. W. C. Bowie, mae gweithiau

ein meddylwyr a'n hysgrifenwyr goreu yn cyrhaedd i lawer congl, ac yn hau hadau gwirionedd sydd yn aml yn dwyn ffrwyth lawer. Trwy gyfrwng y *Postal Mission*—cenadaeth sydd, yn ddiweddar, wedi dyfod y fath help i lafur cenadol mewn cyfeiriadau ereill—yr ydys wedi dwyn ymofynwyr am y gwirionedd, ag oeddynt yn wasgaredig hwnt ac yma, ac wedi eu tori oddiwrth holl ddylanwadau Undodaidd ereill, dan ddylanwad ein ffydd. Dyma beth yw gwaith cenadol o'r nodwedd uchaf, a'r hyn sydd yn ei hynodi yn benaf yw ei fod yn aml yn cael gafael yn y personau meddylgar hyny ydynt yn gymhwys i gymmeryd rhan flaenllaw yn ein mysg. Hyd y nod y flwyddyn hon derbyniwyd efrydydd i Goleg Manchester, Rhydychen, yr hwn a arweiniwyd gyntaf i gofleidio yr egwyddorion eang a broffeswn trwy offerynoliaeth y *Postal Mission.*

Ond wrth y frawddeg, "gwaith cenadol," fel y corffolir hi yn y Mudiad Rhagblaen presennol, golygwn yn benaf ledaeniad egniol o'n golygiadau crefyddol trwy lais byw y pregethwr, a sefydlu a chadw i fyny eglwysi yn y rhai y ceir clywed ein llais. Yma yr ydym yn dyfod at wreiddyn y mater. Mae yn wir ein bod ni yn awyddus am enyn brwdfrydedd newydd yn yr oll o'n heglwysi, a chreu yr yspryd a wna i'r fflam oleuo. Mae yn wir fod arnom ni eisieu undeb ac yspryd o ymroddiad i achos cyffredin. Tybiaf yn aml fod bywyd ein heglwysi yn ormod o fywyd cynnulleidfaol, nid yn unig yn ei gyfansoddiad—nid wyf yn achwyn ar hwnw—ond yn ei amcanion a'i fuddiannau. Mae y gwahanol eglwysi, nid yn unig yn hollol annybynol y naill ar y llall yn eu llywodraeth, ond y maent hefyd yn ormod ar eu penau eu hunain, ac mewn manau yn lleol yn eu dylanwadau. Gall fod ganddynt, am dymhor, fywyd cryf ac iachus ynddynt eu hunain, ac ymgrynhoant gylch gweinidog sydd yn ffyddlon iddynt, a hwythau yn ffyddlon iddo ef. Yn wir, yr wyf o'r farn fod mwy-fwy o duedd mewn cynnulleidfaoedd i gael eu denu yn bersonol gan ddylanwad gweinidog, a llai-lai o duedd i gael eu tywys gan ffyddlondeb syml i egwyddor. Ac ambell waith nid oes gan y cyfryw gynnulleidfaoedd, er eu bod yn hollol gywir a difrifol yn eu bywyd crefyddol, ac er eu bod i raddau mawr yn llwyddiannus, un gobaith am arfer unrhyw ddylanwad y tu allan i'r dref yn yr hon y maent wedi cael eu gosod, nac un rhan mewn symmudiadau crefyddol ydynt yn ymestyn y tu hwnt i'r terfynau hyny. Yn awr, yr wyf yn credu fod yr absennoldeb hwn o yspryd cenadol, a'r duedd hon mewn eglwysi i ymorphwys ar arfer dylanwad lleol yn unig, ac i ymfoddloni ar weinidogaeth un dyn—yr wyf yn credu fod yr ymddidoliad hwn oddiwrth ryw achos mawr yn un y dylem ni deimlo yn flin o'i herwydd, a'i fod yn cario ynddo hadau, nid bywyd, ond marwolaeth. Yr wyf yn meddwl y gallaf egluro yr hyn wyf yn ei olygu ag hanes dwy eglwys, y rhai, cyhyd ag y parhaodd y weinidogaeth genadol a dynent y bobl ar eu hol, oeddynt yn llawn o fywyd crefyddol, ac o ysprydoliaeth oedd yn dyrchafu ac yn bywhau, a'r rhai a adawsant eu hol er daioni ar filoedd o fywydau—golygaf Eglwys yr Iachawdwr a Chapel Bedford. Darfu i athrylith gre-

fyddol uchel, ac i alluoedd mawrion George Dawson a Stopford Brooke roddi iddynt y fath afael ar galonau a bywydau y gwyr a'r gwragedd a ymdyrent i'w gwasanaeth nad oes ond ychydig o weinidogion Crist wedi ei gael heddyw. Ond wedi marwolaeth rhy gynar George Dawson, a'r golled o'i bresennoldeb personol, yr ydys wedi teimlo gan ei bobl angen y rhwymyn undeb hwnw a ffurfiwyd gan ei bersonoliaeth, ac nid oedd un rhwymyn arall i gymmeryd ei le, yr un teyrngarwch i achos, nac un rhan yn mywyd eangach yr eglwys; ac mae hanes Eglwys Dawson wedi bod yn hanes un ymdrech hirfaith a gariwyd yn y blaen yn odidog gan eich gweinidog parchus yma (y Parch. G. St. Clair), a chan ei olynwyr yn erbyn anhawsderau lu, hyd nes, o'r diwedd, fel mae'n drist dweyd, mae gweinidogaeth y dyn rhagorol hwnw, J. C. Street, yn mron a therfynu mewn cyssylltiad â'r eglwys, a drysau y capel ar fin cael eu cau. Mae terfyniad gweinidogaeth Mr. Stopford Brooke yn Nghapel Bedford, a gwasgariad y gynnulleidfa mewn canlyniad, yn hanes arall sydd yn dysgu yr un wers; ond y mae ein cwyn yn cael ei liniaru yn fawr yn yr achos hwn gan y ffaith fod Mr. Brooke wedi ymgymmeryd a bod yn Gaplan Manchester College, Rhydychen, lle y caiff, fel y credwn, gyfle annghymharol, trwy ei syniadau uchel, a swyn barddonol ei iaith, i ddylanwadu ar feddwl ieuanc y genedl. Dyma ymgais genadol o'r nodwedd uwchaf, yn cael ei chyfeirio at y bobl ieuainc a lywiant ddyfodol y genedl; ac yr ydym yn dymuno Duw yn rhwydd i'r pregethwr sydd wedi ei neillduo i'r gwaith.

Nid yw y ddwy enghraifft hon ag wyf wedi ddwyn i'ch sylw yn ddim ond enghreifftiau o'r hyn sydd bob amser yn wir: nas gall bywyd arosol unrhyw eglwys byth gael ei gadw wrth ymlynu yn unig wrth rhyw weinidog neu gilydd, a thrwy feddu ar fywyd a dyddordeb lleol yn unig. Y gynnulleidfa sydd yn parhau i fyw yn ystod gweinidogaeth ar ol gweinidogaeth, ac o genedlaeth i genedlaeth, yw y gynnulleidfa sydd wedi ymrwymo i fod yn ffyddlon i egwyddorion, yn annybynol ar bob pregethwr, ac i fuddiannau eangach na'r rhai a gyfyngir i unrhyw le. Gall gweinidogion fyn'd a dod, ond mae traddodiadau cyssegredig y gyfryw eglwys yn aros, ac mae y gyfeillach ag eneidiau crediniol o'r un anian yn parhau i fyw. Mae yr yspryd cenadol yn uno ei aelodau mewn un fyddin o frodyr Cristionogol â brodyr ereill yn mhell ac yn agos, y rhai sydd ganddynt yr un Efengyl i'w phregethu, a'r un gwirionedd i'w wneyd yn adnabyddus. Maent ar dân gan y brwdfrydedd aruchel sy'n cymmeryd dyddordeb yn hawliau holl ddynolryw. A gânt hwy feddu ar wirionedd crefyddol a pheidio bod yn awyddus i daenu ei ddylanwad? A gaiff y ddawn werthfawrocaf o eiddo Duw ei chyflwyno i'w gofal, yr hyn a ystyriant hwy yn grefydd wirioneddol yr Iesu, ac a gânt hwy ei chyfyngu i gylch bychan? Mae yn anmhossibl. Nis gall aelodau o unrhyw eglwys wirioneddol a gweithgar wneyd hyn. Mae gwneyd hyn yn arwydd nad yw crefydd, mewn gwirionedd, yn byw o fewn i furiau yr eglwys hono.

Rhaid i'r sawl sydd ganddynt ffydd fywiol, yn anwyl ac yn werthfawr i'w heneidiau, ddweyd gyda Phaul, "Gwae fydd i mi oni phregethaf yr Efengyl."

Yr wyf yn credu yn gadarn fod pob eglwys yn llwyddo yn ol fel y byddo y bobl a gyfansoddant yr eglwys hono yn ymdaflu i'r gwaith cenadol a berthyn iddynt. Yr wyf yn gweled bob amser mai po fwyaf a wnewch, mwyaf y gallwch wneyd; po fwyaf calonog y byddoch chwi yn cyflawni eich cenadwri, mwyaf o help a gewch. Os ymgymmerwch chwi â rhywbeth y mae y bobl yn gofalu am dano, mae eu calonau yn cael eu hagor; mae eu dwylaw yn eu llogellau, a'u brwdfrydedd yn cael ei ddeffroi. Gwna gymmaint o les iddynt hwy ag a wna i'r achos sydd yn galw am eu hymroddiad a'u doniau. Peth dymunol iawn i ni sydd yn dal cyssylltiad â Manchester College, Rhydychen, yw gweled, yn ystod y blynyddau diweddaf hyn, y cariad haelfrydig a ddangoswyd tuag at y cyfrwng hwn sydd yn ein meddiant o osod allan yr egwyddor hon o rydd ymofyniad a broffeswn, yn chwilio am wirionedd Duw sydd o hyd yn cael ei amlygu i ni. Yr wyf yn talu fy nheyrnged ddidwyll i'r gwyr a'r gwragedd ffyddlon, a gyfranasant yn yspaid blwyddyn neu ddwy £55,000 tuag at ein trysorfa adeiladu: gwyr a gwragedd ag ydynt yn adeiladu ffenestri lliwiedig yn y capel, y rhai a roisant eu harian heb gynnilo at gof-golofn y gwr y maent yn garu uwchlaw pawb ereill—Dr. Martineau, a'r rhai ydynt etto yr un mor barod, a'r un mor haelionus i gyfranu at y treuliau o gael Mr. Stopford Brooke yn gaplan. Mae y sawl ydynt yn credu yn egwyddor fawr ein Coleg wedi ymbriodi ag ef â sêl adnewyddol trwy y moddion hyn, ac y mae wedi ymwreiddio yn ddyfnach yn eu calonau. Yr un fath y mae hi gydag aelodau eglwys sydd yn llawn o anturiaeth genadol. Dihunir hi; mae yn ganolfan bywyd a goleuni; mae megys cenedl fyw a chynnyddol; mae yn planu canghenau. Mae cenedl ar ol cenedl yn adeg ei llwyddiant wedi gwneyd hyn—y Persiaid, y Groegiaid, y Rhufeiniaid, trigolion Portugal, Spaen, a Lloegr. Mae eglwys fyw yn gwneyd hyn hefyd; ac y mae trwy hyny yn lluosogi yr yspryd trwy yr hwn mae'n byw; mae yn amgylchu ei hun o'r newydd a'r awyrgylch hono sydd iddi yr hyn yw *oxygen* i'r *lungs*. Nid oes genyf amynedd at lywodraeth gul, hunangar, yn ein heglwysi. Yr eglwys sydd yn eiddigeddu am fod eglwys newydd yn rhy agos ati, rhag ofn y collir rhyw wrandawr yn y fan hon neu y fan draw, sydd yn eglwys wael, yn amddifad o wroldeb ei hargyhoeddiadau, ac o ffydd yn ei hachos. A ydych chwi yn cael eglwysi gwirioneddol gryf ac iachus fel hyn? Nac ydych; y maent bob amser yn ddiwyd wrth y gwaith o blanu sefydliadau crefyddol newydd; ac mae'r hen a'r newydd yn llwyddo yn well yn herwydd y bywyd adnewyddol. Wrth gwrs, dylid arfer mesur neillduol o ddoethineb wrth agor cenadaethau newyddion, ac wrth sefydlu cynnulleidfaoedd newyddion; ond pryd bynag y coda cais gwirfoddol am genadaeth mewn ardal lle mae angenion pendant yn bodoli, yn enwedig pan mae'r cais wedi dechreu yn barod gydag

Ysgol Sul—meithrinfa eglwys sydd i fod—yr wyf yn credu fod hwnw yn gais a ddylai gael ei ateb, ac mae ei ateb yn sicr o roddi bywyd ac yni adnewyddol yn yr eglwysi sydd wrth wraidd y mudiad. Os collir un neu ddau o addolwyr, fe ennillir mwy yn yr yspryd newydd sydd yn cael ei enyn, ac yn y teimlad fod pawb yn perthyn i fudiad sydd yn sicr o lwyddo. Yn y dyddiau hyn nid oes aros yn llonydd i gael. Mewn masnach, anturiaeth yn unig a lwydda; yn ein gwaith crefyddol aros yn yr unfan a marwolaeth, neu myned yn mlaen i feusydd newyddion yw yr hyn sydd yn eiddo i ni. Er cynnal i fyny fywyd ein heglwysi, yr wyf, ar ol profiad hir, yn credu yn gydwybodol nad oes un feddyginiaeth fel gwaith cenadol.

(I'w barhau.)

RHAGORIAETH CARIAD AR FFYDD A GOBAITH.

(Testyn Eisteddfod Merthyr Tydfil, 1824.)

CARIAD o ddifrad ddwyfron,—gwir achos
Goruchel gysuron,
Yw diymwâd wellâd llon
Ag eli briwiau'r galon.

Calon ddi gariad coeliwch,—nodedig,
Nad edwyn ddedwyddwch,
Oer yw rhan y truan trwch,
Gerwin a di hawddgarwch.

Hawddgarwch gwelwch mewn gwir,—a ddylem
Ei ddilyn yn gywir
Ag yna ein digonir.
A dyddanwch heddwch hir.

Hir gariad sy'n rhagori—ar *Obaith*
Yn llawn waith i'n lloni,
Er elwant mae'n rheoli
Poeth ymryson greulon gri.

Cri atgas y croew utgyrn,—heb gariad,
Wiw geidwad i gedyrn,
A ddena'r chwith ddyn yn chwyrn
Drwy rwysg i dori'r esgyrn.

Esgyrn y meirw a losgwyd—wir hyllwaith
Ar allor yn arswyd;
Llawer blin fyddin faeddwyd
Drwy ddigofus 'nafus nwyd.

Anwydau cas niweidiol—a gedwir
Dan gadwyn dycianol
Gan les iawn gynhes i'r gol,
Buredig gariad brawdol.

Brawdol gariad mad a'i medd;—awyddus,
Ni chwydda mewn balchedd;
Sailwaith cariad yw sylwedd,
Siriolfyd a hyfryd hedd.

Heddwch dyddanwch da ddynion,—cywrain,
Ffrwyth cariad yw'n gysson;
Mae cariad y ddifrad fron
Yn fêl i'r holl nefolion.

Nefolion gwynion ar gynnydd,—y cair
Mewn cariad i'w gilydd;
Holl waith hoff *Obaith* a *Ffydd*
Dirfawr yn angeu derfydd.

Derfydd pob gwaedlyd dyrfa,—derfydd
Y dewrfeilch llawn traha;
Derfydd, heb gêl, rhyfela,
Drwy nerth cariad dyfiad da.

Da enwog ddyn ei dyniad—at fwynbêr
Hynawster yn wastad,
Caiff yr Ion yn dirion Dad,
Ag erys yn ei gariad.

—Y Parch. Thomas Evans (1766—1833), Aberdar
(Tomos Glyn Cothi.)

MYFYRDOD "ANNGHREDADYN."

Ai byth i ffwrn boeth uffernol—yr ä
Rhyw adyn annghredol,
Am wrthod athrawiaethol
Bethau ffydd-obeithwyr ffol?

O na! Ein Ior ni yn anian—'n eglur
Ddigon gwir a ddadgan
Ei gariad. Greadur egwan—
Ai lle dyn yw llyn o dân!

Llundain. Dewi Hiraddug.

GWERTH CYMMERIAD DA.

GAN MR. D. DELTA EVANS, LLUNDAIN.

(Parhad.)

IV.

DYLANWAD A CYMMERIAD

(1) Ar y gydwybod ; (2) ar y meddwl ; (3) ar y corph.

"Pryn y gwir, ac na werth ; felly doethineb, addysg, a deall."—*Solomon.*

"It is presumable that the Deity, in creating the moral powers and external world, really adapted the one to the other ; so that individuals and nations, in pursuing morality, must, in every instance, be promoting their best interests ; and in departing from it, must be sacrificing them to passion or to illusory notions of advantage."—*George Combe.*

"Y mae yr esgyrn, y galon, y glust, y llygad, a'r tafod yn fydoedd o ryfeddodau ynddynt eu hunain ; ond pan yr edrychwn ar y gwahanol bethau hyn wedi eu cyssylltu i wneyd un corph, yr ydym yn boddi mewn syndod !"—*J.R.*

I. Un o'r arwyddion egluraf o bresennoldeb y Dwyfol yn y cyfansoddiad dynol ydyw yr ymwybyddiaeth sydd genym o ddrwg a da, camwedd ac uniondeb, cyfiawnder a thwyll, a'r cyffelyb, a'r canlyniadau y maent yn debyg o'u cynnyrchu "o foddhâd a gobaith ar un llaw, a thristwch ac ofn ar y llaw arall." Dyma yr hyn a elwir genym yn *gydwybod*,* yr elfen hono mewn dyn trwy gyfrwng yr hon y gall wahaniaethu rhwng drwg a da, a'r hon a'i cyhudda pan y trosedda yn erbyn deddfau moesol y greadigaeth, ond a'i cefnoga mewn iawnder a daioni. Nid ein hamcan yn awr ydyw dadleu natur y gydwybod ; y mae y gair yn dwyn gydag ef amlygrwydd o'i ystyr priodol, fel mai afreidiol fuasai ceisio ei esbonio â geiriau eraill ; ac fel y dywed un ysgrifenydd, "Gwell meddu cydwybod dda na dadleu am ei natur." Ammhossibl yw rhoddi gwerth gormodol ar gymmeriad da yn ei berthynas â'r gydwybod, o blegid credwn mai ar gyflwr cydwybodol dyn y dibyna ei ddedwyddwch penaf. Gorchwyl anhawdd, yn ddiau, ydyw penderfynu beth yw ansawdd cymmeriadau pobl eraill. Gallwn, wrth gwrs, ffurfio rhyw fath o farn bersonol er boddhâd ein hunain, ac nis gallwn yn fynych ymattal rhag sylwi ar ymddygiadau ac allanolion personau, a mympwyo yn ol hyny ; ond nis gallwn byth dreiddio i ddirgelion eithaf eu calonau, fel ag i ganfod yr egwyddorion sydd wrth wreiddyn y gweithredoedd a'r cymmhellion sydd yn eu cynnyrchu. Y mae hyn y tu allan i

*"There is a superior principle of reflection, or conscience, in every man, which distinguishes between the internal principle of his heart, as well as the external actions ; which passes judgment upon himself and them, pronounces determinately some actions to be in themselves evil, wrong, unjust ; which, *without being advised with*, magisterially exerts itself, and approves or condemns him, the giver of them, accordingly."—*Butler.*

derfynau ein talaethau—ar ein calonan ein hunain yn unig y mae genym hawl i eistedd mewn barn. Gall dyn am ennyd *ymddangos* ei fod yr hyn nad ydyw; gall dwyllo *eraill*, ond nid felly ei gydwybod ei hunan. Os ydyw hon yn ei gyhuddo, y mae y dyn mewn gwrthryfel parhaus âg efe ei hun; a phwy a all ddesgrifio y terfysg! Er ei fod yn *ymddangos* yn ddedwydd, y mae mewn gwirionedd megys teyrnas wedi ymranu yn ei erbyn ei hun. Ond ar y llaw arall, pan y mae dyn mewn heddwch â'i gydwybod, ac yn teimlo yn argyhoeddedig ei *fod* yr hyn a ymddengys, "gwyn fyd y gŵr hwnw!" Y mae cymmeriad da, ynte, yn dylanwadu yn y fath fodd ar y gydwybod nes dyrchafu dyn yn uchel mewn hapusrwydd mewnol. Prin y gallwn gredu, fel yr haera rhai, yr ä un yn mhell ar gyfeiliorn tra yn ymddwyn yn unol â chyfarwyddiadau y gydwybod, "yr hon," meddai Trench, "ydyw llais Duw yn enaid dyn!"† Dyma yn sicr allu llywodraethol ei natur. Y Doctor Chalmers, onid ê? sydd yn dweyd mai "lle cydwybod ydyw lle gorchymyn." Tra y cedwir y cymmeriad yn bur, y mae y dyn yn reddfol yn ufuddhau i gyfarwyddiadau, yn gwrandaw ar rybuddion, ac yn cyflawni gochymynion llais dwyfol y "gŵr o fewn y fynwes." Nis gall dim ei foddhau ond ufudd-dod; nis gall dim ei drengu ond anufudd-dod.

II. Fod cymmeriad dyn, ei ymarweddiad allanol, yn dylanwadu ar y meddwl yn ei ansawdd a'i werth mewnol, sydd eglur ddigon, os telir sylw priodol i dueddiadau a nodweddion personau a dulliau ac arferion cenedloedd. Y mae y meddwl yn gwellhau neu ddirywio yn ol natur yr argraphiadau a dderbynir ganddo. Cadarnheir hyn pan gofir fod canlyniadau hyfryd neu anhyfryd yn dilyn *pob* gweithred, y rhai sydd yn effeithio ar y gydwybod, y gydwybod drachefn ar y meddwl, nes ar y naill law y llygrir ei gynneddfau, neu ar y llall y pureiddir hwynt yn eu hansawdd. Y mae y cyfansoddiad meddyliol, yn ddiammheu, yn un o ranau dwyfolaf ac arddderchocaf ein natur; dyma, o bossibl, yr elfen fwyaf defnyddiol sydd ynom; y mae ei ddylanwad yn treiddio gwrthddrychau aneirif y greadigaeth, a dyma'r ffynnonell o'r hon yr hàna holl ryfeddodau gwyddor a chelf. Os yw y cymmeriad, ynte, yn dylanwadu mor effeithiol ar y gallu meddyliol er drwg neu er da, dilys yw fod yr hwn sydd yn mabwysiadu arferion doeth a dynol ar yr un pryd yn nawseiddio y cynneddfau, a'u dyrchafu i odidogrwydd ac arddduniant rhy urddasol i'w cymmharu âg eiddo yr hwn y mae ei gymmeriad yn gynnwysedig o arferion brwnt a llygredig. Dysgai y Stoiciaid gynt yr athrawiaeth ryfedd, ond gwir, fod dyn yn gyntaf yn cael ei gyflwyno *i'w ofal ei hunan;* a dïau dy fod ti a minnau, ddarllenydd hynaws, yn gymmhwysach i gymmeryd gofal o honom ein hunain nag o neb arall! Gwyddom ein pleserau a'n gofidiau, ein gobeithion a'n dymuniadau, ein nodweddion a'n ffaeleddau, yn

†"Arwydda y gair Ellmynaeg, '*Gewisen*,' fod y wybodaeth a geir trwy y gydwybod yn sicr, uwch law pob ammheuaeth, yn uniongyrchol, ac yn gorphwys ar ymresymiadau y deall."—*Y Gwyddoniadur Cymreig.*

fwy profiadol a theimladwy na'r eiddo eraill. Y mae ein teimladau ein hunain yn wreiddiol a sylweddol, tra nad yw yr eiddo arall *i ni*, ar y goreu, ond darluniau adlewyrchol, arwynebol—cysgodion yn unig. Pa fath fyd hyfryd i fyw ynddo fuasai hwn pe buasem oll yn sicrhau yn gyntaf ein cymmeriadau pur dilychwin ein hunain* cyn condemnio yr eiddo ein cyd-ddynion! Ysgubed pawb o flaen ei ddrws ei hun, yna ceir yr heol yn lân. Yn ol ein hymresymiadau blaenorol, y mae meddwl y gŵr â'r cymmeriad da yn annhraethol werthfawrocach i'w berchenog ac i gymdeithas na'r eiddo y drygionus *iddo ef*, a'r byd o'i amgylch. Llywodraethir ni gan dri gallu—neu o leiaf, yn fwy cyffredin, gan *un* o dri gallu—yr ymresymol, y moesol, a'r anifeilaidd. Un o'r galluoedd hyn yn y cyfansoddiad dynol ydyw y ffynnonell o'r hon y deillia pob gweithred o'n heiddom; ac fel y mae y gweithredoedd a dardd o'r naill yn effeithio ar y llall, felly hefyd y mae y cymmeriad a wneir i fyny o'r cyfryw weithredoedd yn dylanwadu ar y peiriannwaith meddyliol yn ei gyfanrwydd yn gystal ag yn ei wahanol a'i amrywiol agweddau. Dylai y galluoedd llywodraethol hyn fod mewn cydgordiad, cyd-bwysedd, perffaith a pharhaus, onid ê ofer fydd ceisio adeiladu cymmeriad pur. Ydyw, y mae cymmeriad da yn dylanwadu ar y galluoedd llywodraethol yn y fath fodd nes y mae pob rhan ac adran o honynt yn cyflawni eu swyddweithiau yn berffaith, a'r meddwl yn ei holl deithi yn gweithredu yn gysson â deddfau cynhenid natur. Y mae y dychymyg yn gallu disgyn i'r dyfnder, neu esgyn i'r uchelder mewn amrantiad, a thrigo yn mhlith bodau ysbrydol mewn byd heb boen na gofid nac angau; y mae y deall yn heinyf ac effro, yn llawn parodrwydd i dderbyn argraphiadau o wybodaeth ac addysg; y mae y cywreinrwydd yn dyfal-syllu ar bob gwrthddrych teilwng o'i astudio; y mae cydymdeimlad yn trigiannu yn mhlith y gofidus a'r anghenus, yn cyfranogi, o boenau dynion, ac yn trugarhau yn mhob man; y mae yr edmygedd yn hoffi, yn caru, a mawrhau Natur yn ei holl agweddau; y mae y cariad yn mwynhau cymdeithas, yn cyflawni gweithredoedd cymmwynasgar a charedig, yn tosturio wrth yr anffodus, ac yn maddeu i droseddwyr; y mae yr arabedd yn chwareu âg amrywiol agweddau goleuni a gwirionedd; ac y mae y gobaith yn gwenu ar bob anturiaeth gyfreithlawn o eiddo dyn, gan addaw llwyddiant a llawenydd yn y byd hwn, ac yn yr hwn a ddaw. Fel hyn, y mae holl gynneddfau y meddwl yn cael dylanwadau arnynt gan y cymmeriad rhinweddol a da.

III. Ymddengys fod cadwraeth y corph mewn cyflwr iachus a hoenus yn un o'r dyledswyddau pwysicaf y mae natur yn eu

---

*"O! that you could turn your eyes towards the napes of your necks, and make but an interior survey of your good selves."—*Shakespeare* ('*Coriolanus*,' *Act* ii., *Scene* 1).

"I will chide no breather in the world but myself; against whom I know most faults."—*Shakespeare* ("*As you like it*," *Act* iii., *Scene* 2).

Gwel hefyd 1 *Cor.* xi. 28, 31.; 2 *Cor.* xiii. 5.

cyflwyno i'n sylw. Gellir ystyried yr archwaethau o newyn a syched, y teimladau hyfryd ac anhyfryd o bleser a phoen, o wres ac oerni, &c., fel llais Natur yn ein cyfarwyddo pa beth i'w ddewis a pha beth i'w ochel i'r dyben hwn. Pan ystyrir y berthynas agos sydd yn bodoli rhwng y meddwl a'r corph, rhwng bywiogrwydd y naill a nerth y llall, gwelir ar unwaith fod iechyd yn dibynu llawer ar burdeb cymmeriad. Dywed y Proffeswr Blackie yn y llyfr bychan ardderchog hwnw o'i waith a elwir "*Self Culture*," fod y berthynas hon yn gyffelyb i'r un a fodola rhwng y sylfaen a'r adeilad. Y mae yn ffaith, mor sicr ag unrhyw ffaith mewn rhifyddeg, nas gall peth *fod* heb sylfaen i orphwys arno, echel i droi arni, gwreiddyn i dyfu o hono, y *rhywbeth* hwnw y mae bodolaeth y cyfan yn dibynu arno; ac fel y dylanwada y cymmeriad ar y gydwybod, felly y gydwybod ar y meddwl, a'r meddwl ar y corph. Ofnwn nad oes ond ychydig o feddygon yn canfod gwerth "cydwybod dawel" yn ei dylanwad ar y meddwl, a thrwy y cyfrwng hwn ar y corph. Diau y niweidia cydwybod euog lawn cymmaint ar yr iechyd ag y gwna "cylla" gorlwythog. Wrth gydwybod euog y golygwn, cydwybod wedi ei hanrheithio a'i chythryblu gan weithrediadau anghyfreithlawn ac anfoesol. Credwyf y dylid gochel yn ofalus bob gweithred y tybir ei bod yn drosedd, ei bod yn groes i ddeddfau ein bodolaeth. Ond yn yr oes "oleu," "wyddonol," "ddysgedig," a "duwiolfrydig" hon, dywedir wrthym y dylid yn gyntaf *brofi* yn benderfynol fod yr hyn a gondemnir ynddo ei hunan yn "bechadurus." Ond y mae yn ymddangos i mi fod boddhad neu gyhuddiad cydwybod yn rheswm digonol dros gyflawni neu ochelyd y cyfryw. Ac y mae y llais dwyfol yn y fynwes ddynol yn dyweyd *na ddylid cyflawni unrhyw weithred gyda golwg ar foesoldeb yr hon y mae yr amheuaeth leiaf.* Pan fyddo un yn barhaus yn gwneyd yr hyn a *dybir* sydd drosedd—pa un bynag a ydyw felly ai peidio—bydd y teimladau o euogrwydd ac edifeirwch a ddilyn yn sicr o effeithio yn ddinystriol ar yr iechyd; ac yn enwedig felly pan fo rhyw anhwylder arall yn blino y person, gwna cythrybledd y gydwybod chwanegu at y drwg; tra y mae cymmeriad da—cydwybod dawel, meddwl clir, bwriadau aruchel a dymuniadau pur—yn cynnyrchu heddwch mewnol a sirioldeb allanol, fel ag i gynnorthwyo meddyginiaeth cyfferïol i gynnyrchu yr effaith dymunol.

V.

EI DDYLANWAD AR Y BYD.

"Megys mewn dwfr y mae wyneb yn atteb i wyneb, felly y mae calon dyn i ddyn."—*Solomon.*

"The more difficulty there is in creating good men, the more they are used when they come."—*Emerson.*

PRIN y mae cymmeriad yn ganmoladwy ac yn deilwng o'i efelychu, os nad ydyw yn dylanwadu yn ddaionus ar y byd, ac yn cyfranu rhyw gymmaint at ei hapusrwydd. Y mae gwerth cymmeriad yn

ei ddylanwad ar fucheddau dynion i'w ganfod nid mewn rhyw un teimlad o serch yn unig, ond yn y dull y llywodraetha ac y cyfarwydda yr holl serchiadau, y rhai ydynt rinweddol neu feius, yn ol natur y gwrthddrychau a erlynir ganddynt. Bu "natur rhinwedd" yn destyn dadleuon brwd yn mhlith athronwyr am lawer o oesoedd. Dadleuai Aristotl, Zeno, a Phlato, fod rhinwedd yn gynnwysedig yn mhriodoldeb ymarweddiad—yn nghyfaddasrwydd y teimlad y gweithredir ynddo i'r gwrthddrych sydd yn ei gynnhyrfu. Fe allai nad oes dim yn dylanwadu mwy ar ddyn na chymmeriadau y rhai hyny y mae yn ymsymmud yn eu plith. Gellir ystyried hon yn rheol ddi-eithriad gyda golwg ar gyfeillion. "Haiarn a hoga haiarn, felly yr hoga gŵr wyneb ei gyfaill." Edrycher am foment ar y gŵr hwnw y priodolir iddo gymmeriad da. Nid yn ei gynghorion yn unig y canfyddir gwerth ei gymmeriad, ond yn ei esampl i eraill, a'i ymddygiad tuag attynt. Y mae bob amser yn deall yr hyn y proffesa ei ddeall; y mae yn bur, yn gywir, yn onest; cashâ â châs cyfiawn bob twyll a rhagrith. Yn yr ystyr yma, ynte, y mae yn gosod gwell esampl i'r byd, ac yn dylanwadu mwy arno, na lliaws o wŷr dysgedig a thalentog, y rhai, trwy gynghor a gorchymyn, sydd wedi gadael ar eu hol gyfrolau lawer o reolau a moeswersi; ond y rhai, yn mhob oes, mewn esampl ymarweddiad—o amser Socrates ac Aristippus i lawr at eiddo Swift a Voltaire; ac o amser Philip o Alexander i lawr at eiddo yr ymerawdwr Pedr o Muscovy—sydd wedi hynodi eu hunain trwy eu hymarweddiadau atgas ac anfoesol, gan osod esamplau niweidiol i eraill a ddymunent eu hefelychu, y rhai drachefn ydynt barotach i efelychu y "mawrion" yn eu gwendidau nag yn eu perffeithderau.

* * * * *

"Y mae rhagoroldeb rhinwedd yn gynnwysedig mewn gweithred," meddai hen athronydd paganaidd. "Y mae pob gwybodaeth a chrediniaeth sydd heb ei dilyn gan weithredoedd da, megys dechreuad heb gyflawniad, neu sylfaen heb adeilad." "Marw yw ffydd heb weithredoedd," meddai yr Apostol Iago; ac yn wir, y mae y Testament Newydd yn llawn o'r un athrawiaeth. Y mae lle i ofni mai ein camgymmeriad mwyaf y dyddiau hyn ydyw, ein tuedd i osod *credo* o flaen cymmeriad, gan ystyried fod bodolaeth a chadwedigaeth i'w symio i fyny yn y *credo* yn unig. Ond yn sicr i ni, y mae rhywbeth mwy yn anghenrheidiol—

> "He only earns his freedom and existence,
> Who daily conquers them anew."

Ond gobeithiwyf gael cyfle etto i gyfeirio yn helaethach at hyn. Ac yn awr, goddefer i mi ddyfynu y geiriau prydferth a ganlyn wrth derfynu:—

> "The name of Death was never terrible,
> To him that knew to live!"

[*Baner ac Amserau Cymru*, Ebrill 11eg, &c., 1894.]

TARDDIAD A DADBLYGIAD ATHRAWIAETH Y DRINDOD.—I.

Un o brif syniadau crefyddol y genedl Iuddewig oedd cred ddiysgog mewn Duw, a'r Duw hwnw yn UN. Mae'r athrawiaeth hon yn cael ei gosod allan mewn iaith glir a dealladwy, ac mewn iaith hefyd sydd ar unwaith yn dangos mor bwysig yn ngolwg pob Iuddew oedd y gred hon mewn Un Duw Hollalluog, Hollwybodol, a Hollbresennol.

I'r cyfarwydd a'r Beibl nid oes eisieu dyfynu geiriau i ddangos mai mewn un Duw di-ranedig y credai'r Iuddewon, ac hefyd i ddangos y pwysigrwydd a osodent arni. "Clyw, o Israel; yr Arglwydd ein Duw ni sydd un Arglwydd." Ni fyddai dyfynu rhagor ond gwaith hollol ddiangenrhaid, gan fod y geiriau uchod yn gynnrychioliad teg a chywir o iaith yr Hen Destament trwyddo ar y mater.

Mae'r un peth yn wir am yr hyn a ddysgwyd gan Iesu Grist. Nis gellid dysgwyl llai. Yr oedd Iesu Grist yn Iuddew; yr oedd wedi cael ei ddysgu yn ofalus, fel pob plentyn Iuddewig arall, yn Ysgrythyrau y Grefydd Iuddewig. A phe na fuasai wedi defnyddio geiriau ydynt yn profi hyny tuhwnt i amheuaeth, gallem yn hyderus fentro credu fod ei farn am Dduw yn cydfyned â'r farn gyffredin; hyny yw, am hanfod Duw, oblegyd yr oedd ei farn am gymmeriad Duw lawer iawn yn rhagorach nâ'r farn a goleddid yn gyffredin gan yr Iuddewon am ei gymmeriad. A'r farn gyffredin am hanfod Duw oedd ei fod yn UN. Ond mae wedi defnyddio geiriau ydynt yn gosod y mater y tu hwnt i bob amheuaeth. Wele un neu ddwy o enghreifftiau:—"Paham y gelwi fi yn dda? Nid oes neb da ond UN, sef Duw." "A hyn yw y bywyd tragwyddol; iddynt dy adnabod di, yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaist ti, Iesu Grist." Gellid cyfeirio at lawer o ymadroddion ereill i'r un perwyl; ond mae'r uchod yn ddigon yn awr i ddangos beth oedd athrawiaeth Iesu Grist gyda golwg ar hanfod Duw.

Ac yn ysgrifeniadau'r apostolion yn y Testament Newydd, cawn yr un syniad yn cael ei ddysgu; megys yn y geiriau canlynol o eiddo Paul:—"Eithr i ni nid oes ond un Duw, y Tad;" ac yn y geiriau hyn o eiddo Iago:—"Credu yr wyt ti mai un Duw sydd; da yr wyt ti yn gwneuthur." Gall y cyfarwydd ag ysgrifeniadau'r apostolion yn hawdd gael allan luaws o frawddegau ereill cyffelyb i'r uchod—yr oll yn dysgu'r athrawiaeth o Undod Duw, ac mai'r Tad yw'r un hwnw.

Felly, gwelwn, nid yn unig fod yr athrawiaeth o Undod Duw yn cael ei dysgu yn y modd mwyaf pendant yn yr Hen Destament trwyddo, ond hefyd mai dyma oedd y syniad a ddysgid gan Iesu Grist ar y pwnc, ac hefyd gan y Cristnogion yn gyffredinol yn ystod y canrif cyntaf o'r cyfnod Cristnogol, ac efallai am ryw gyfran o'r ail hefyd.

Yn y rhan luosocaf o'r Eglwys Gristnogol mae syniadau gwahanol iawn yn cael eu coleddu ar y pwnc o hanfod Duw. Maent wedi bod yn cael eu coleddu er yn gynnar yn y cyfnod Cristnogol. Mae'r syniad o Undod di-ranedig y Duwdod wedi cael ei daflu i'r gwynt, beth bynag yn yr ystyr syml a roddir i'r gair yn y Beibl. Dysgir fod Duw yn bodoli yn dri o bersonau, ac nid un person; a gelwir y personau wrth yr enwau "Y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glân;" dysgir fod pob un o'r tri yn Dduw gogyfuwch â'r llall—fod y Tad yn Dduw, y Mab yn Dduw, a'r Yspryd Glan yn Dduw; a dysgir yn mhellach fod y tri hyn, nid yn dri o Dduwiau, ond yn un Duw. Gweler credo St. Athanasius am ddesgrifiad o'r Duwdod yn ol y syniad hwn; neu, ynte, gredo unrhyw un o'r enwadau iawnffyddol ereill.

Gwel y darllenydd fod gwahaniaeth mawr rhwng y desgrifiad dyrus ac annealladwy a roddir yn y credoau uchod o Dduw a'r desgrifiad syml a dealladwy a roddir o hono yn y Beibl.

O ba le, gan hyny, y daeth y syniad newydd hwn i Gristnogaeth ar y cyntaf? Yn nghwrs ychydig o erthyglau ymdrechaf roi hanes byr, mor gryno ag y medraf, o darddiad yr athrawiaeth hon ar y dechreu, yn nghyd ag amlinelliad o'i datblygiadau yn y canrifoedd rhwng hyny a'r amser pryd yr oedd wedi cael ei gosod yn y ffurf y mae gyda ni heddyw – oddeutu diwedd y pedwerydd canrif.

HISTORICUS.

"DA YW GAIR YR ARGLWYDD."

"Da yw gair yr Arglwydd"—
  Llusern oleu wiw
I'th oleuo'n ebrwydd
  Dros y bryn a'r rhiw;
Tros y geirwon lwybrau
  Teithi'n rhydd a llon;
Gweli i'r pellderau
  Yn ngoleuni hon.

"Da yw gair yr Arglwydd"—
  Tarian ddyogel, gref,
Rhag y gelyn afrwydd
  A'i holl saethau ef;
Yn y frwydr greulon
  Sydd yn boeth o hyd,
Gwisg ef ar dy ddwyfron
  Ar dy daith trwy'r byd.

"Da yw gair yr Arglwydd"—
Rheol ynddo sydd;
Ceidw di'n ddidramgwydd
Hanner nos fel dydd;
Ynddo ef mae perlau –
Perlau sydd o fri;
A di-ri' drysorau
Gwerthfawr ynt i ti.

"Da yw gair yr Arglwydd"—
Arno i bwyso'n llwyr,
Pan y daw dystawrwydd
Pruddaidd lleni'r hwyr;
Pan yn hen, yn crymu
Dan dy goron wen,
Da i ti'r pryd hyny
Fydd cael nef ddi-len.

Cefn Coed. CASWALLON.

SAIS-ADDOLIAETH.

YN *Y Geninen* am y chwarter diweddaf yr oedd erthygl gan "Yspryd Llywelyn" ar Sais-addoliaeth y Cymro. Addefaf fy mod yn cytuno yn hollol â'r awdwr fod amlygiadau helaeth o'r cyfryw yspryd yn ein gwlad ac yn mhlith ein pobl, ac y dylid gwneyd pobpeth er eu symmud ymaith yn ddioedi; ond annghytunaf yn hollol â'r awdwr cylch y rhai sydd i'w beio am y sefyllfa hon ar bethau.

Gwna efe anelu ei watwareg a'i wawdiaeth at ein bechgyn a'n merched ieuainc a ânt o barthau Cymreig gwledig i wasanaethu mewn siopau yn y trefi. Ni wnaf wadu am foment nad yw y ffeithiau ddyg yn mlaen am y cyfryw, fel rheol, yn wirionedd, ond mentraf ddal ar yr un pryd nad y rhai hyn ydynt y pechaduriaid penaf gyda golwg ar eu gwadiad o'r Gymraeg ac o bobpeth Cymreig, ac felly, o'r tu arall, eu haddoliad o bobpeth Seisnig ac o'r Saesneg ei hun.

Gadawer i ni ymholi yn mha le y bu y merched a'r bechgyn hyn yn yr ysgol yn y parthau gwledig o'r rhai y daethant? Wrth gwrs, gellir ateb eu bod wedi cael eu hysgol naill ai yn ysgolion y Bwrdd neu yn yr Ysgolion Cenedlaethol, sef Ysgolion yr Eglwys Sefydledig. Yn mha iaith, gofyner, y cafodd y bechgyn a'r merched hyn eu dysgu pan yn blant? Wrth gwrs, gellir yn naturiol ateb, gan eu bod yn dod o barthau hollol Gymreig Cymru, mai y Gymraeg oedd penaf iaith ysgol dyddiau eu mebyd? O nage, Syr: dim byd o'r fath. Er fod y plant hyn yn Gymry uniaith, ac yn dod o ardal uniaith Gymreig, ni chawsant ddim addysg yn y Gymraeg, mwy na phe na fuasai Cymraeg mewn bodolaeth, oddieithr iddynt glywed ambell

air yn ddamweiniol y tu fewn i furiau yr ysgol. A thebyg fod y meistr a holl awyrgylch yr ysgol yn Seisnigaidd i'r pen, ac felly, fod y Gymraeg—iaith aelwyd y merched a'r bechgyn hyn—mewn ffaith, yn cael ei diraddio a'i gwadu yn ysgol eu plwyf eu hunain.

Gan hyny, dylai "Yspryd Llywelyn" fyned yn mhellach yn ol os am newid sefyllfa pethau yn ein gwlad. Nid yw o fawr dyben iddo bwnio ar ein bechgyn a'n merched sydd wedi eu hamgylchynu gan ddylanwadau Seisnig, a'u harferion yn cael eu ffurfio dan y dylanwadau hyny. Byddai yn wyrth iddynt ymddadblygu yn ddim amgen nag ydynt.

Gwneler ysgolion dyddiol Cymru yn ysgolion Cymreig, yn y rhai y bydd y Gymraeg yn cael ei pharchu, a'i llenyddiaeth yn cael ei hefrydu, a gellir yn naturiol ddysgwyl i'r rhai ddysgir ynddynt barchu y Gymraeg ac ymfalchïo yn y ffaith eu bod yn Gymry, yn lle bod fel yn bresennol—yn ymdrechu ymddihatru o bobpeth Cymreig gynted ag y medrant.

Rhaid cael ein Byrddau Ysgol, ein hoffeiriaid, a goruchwylwyr ein hysgolion dyddiol yn Nghymru, i werthfawrogi y Gymraeg, drwy ei dysgu yn yr ysgol, a'i gosod yno yn berffaith gydradd â'r Saesneg o leiaf. Mewn gwirionedd, hyhi ddylai fod y brif iaith yn ysgolion Cymru, am mai hi ydyw yr iaith genedlaethol. Yn awr ni chaiff y Gymraeg le i osod ei throed i lawr yn yr ysgolion dyddiol yn ei gwlad ei hun, tra y mae yr estrones Seisnig yn eistedd yno fel arglwyddes. Y mae y Gymraeg yn rhy ddistadl a gwarthus yn ngolwg awdurdodau addysg ddyddiol Cymru i fod yn ystôl droed i'r arglwyddes Seisnig. Os dysgir rhyw ail iaith ynddynt, y Ffrancaeg fydd hono. Gwn fod ychydig eithriadau i'r rheol hon, ond nid ydynt ond eithriadau anaml yn profi y rheol hyd y carn.

Felly, "Yspryd Llywelyn," rhaid i chwi ddechreu gyda'r ysgol ddyddiol os am ddifodi cenedl y Sais-addolwyr allan o derfynau Cymru, oblegyd nid yw yr aelwyd Gymreig yn alluog i wrthsefyll yr holl ddylanwadau gwrthwynebol y tu allan iddi, yn yr ysgol, y coleg, y brif ysgol, a'r byd masnachol.

Mae llawer o Gymry mor ffol â meddwl y gellir cadw y Gymraeg ar yr aelwyd ac yn y capel tra'r Saesneg yn mhobman arall. Hwyr neu hwyrach, bydd raid i'r aelwyd a'r capel fabwysiadu'r un iaith â sefydliadau cyhoeddus ereili. Nid yn unig Saesneg bôb gair ga'r bechgyn a'r merched hyn yn yr ysgol ddyddiol, ond Saesneg bob gair hefyd gânt yn y masnachdy y gwasanaethant ynddo, oddieithr pan fydd angen siarad Cymraeg â chwsmer. Saesneg sieryd y meistr à hwynt, er yn Gymro trwyadl; Saesneg fydd iaith yr aelwyd yn ogystal; Saesneg hefyd ydyw enwau yr holl nwyddau yn y siop; Saesneg drachefn sieryd y trafaelwyr, er yn gwybod Cymraeg. Felly, nid oes dim rhyfeddod fod y bechgyn a'r merched hyn yn ymddadblygu yn or-Seisnig: dyna'r patrwn y cawsant eu ffurfio arno. Mae'n bossibl fod teimlad gwrth-Gymreig ar yr aelwyd Gymreig ar yr hon eu codwyd, ac mai anallu yn unig a'u rhwystra i

siarad Saesneg. Y felldith benaf ddygodd gorthrwm y Saeson i ni oedd gwneyd i ni gashau ein gwlad, ein hiaith, a'n cenedl.

Gwelir yr un gor-Seisnigrwydd yn ein colegau enwadol. Er eu bod yn proffesu parotoi gweinidogion i eglwysi Cymreig Cymru, Saesneg yw'r iaith swyddogol: ynddi hi y cerir pobpeth yn mlaen, gydag ychydig eithriadau. Anwybyddir, diraddir, gwedir y Gymraeg ynddynt. Ni cheir hi yn yr addysg: dysgir Saesneg, Groeg, Lladin, Hebraeg, Germanaeg, a Ffrancaeg—mewn gwirionedd, bradychir hi yn ei chartref ei hun ac yn ei cholegau ei hun. Rhaid i bregethwyr Cymreig ymdaro oreu y gallont â Chymraeg yr aelwyd a'r Ysgol Sul: ni chânt ddim yn ngholegau'r brif ysgol. Darllenwn y dydd o'r blaen ran o anerchiad llywydd un o'r colegau enwadol i'n myfyrwyr. Saesneg, wrth gwrs, fel y gallesid gwneyd llw yn flaenorol, pe mynasid.

"Ysbryd Llywelyn," ymarfoga i'r frwydr! Y gwaith sydd yn fawr! Dechreua yn y gwraidd! Ond mae argoel fod amser gwahanol i wawrio ar Gymru.

D. F. D.

ADDYSG GREFYDDOL EIN PLANT.

Beth sydd wedi ei wneyd gan yr enwadau uniongred yn Nghymru yn y cyfeiriad hwn? Mae pob un o'r pedwar enwad lluosog yn Nghymru - y Methodistiaid, yr Annybynwyr, y Bedyddwyr, a'r Wesleyaid—wedi talu sylw neillduol, fel yr ymddengys, i'r gorchwyl o addysgu eu plant; ac y mae hyn, yn ddiamheu, yn un o achosion eu llwyddiant. Y mae gan bob un o honynt drefn i gario'r gwaith yn mlaen, fel mae'r addysg a gyfrenir mewn canlyniad yn drwyadl ac effeithiol. 'Does dim effeithiolrwydd mewn annhrefn; a rhaid i ninau, fel enwad, fabwysiadu mwy o ddulliau'r enwadau ereill i gyfranu addysg grefyddol i'n plant, cyn y gallwn ddysgwyl fod llwyddiant yn canlyn ein hymdrechion. Mae trefnlen Annybynwyr Morganwg ger fy mron, a rhaid i mi gydnabod fod y cynllun wedi fy swyno yn fawr, ac yn ymddangos fel un hynod o gyfaddas i gyrhaedd yr amcan mewn golwg. Yn ol y cynllun hwn rhenir pob ysgol i bump o safonau—y cyntaf i blant dan 9 oed, yr ail dan 10 oed, y drydedd dan 11 oed, y bedwaredd dan 12 oed, y bummed dan 13 oed. Yn mhob safon mae tair gradd—isaf, canol, ac uchaf. Yn y safon gyntaf, y gwaith a roddir o flaen y dosparth i'w wneyd yw (*a*), darllen geiriau dwy a thair llythyren yn gywir; (*b*), adrodd Gweddi'r Arglwydd; (*c*), ateb gofyniadau ar hanes Iesu Grist. Yn yr ail safon (*a*), darllen geiriau un sill hwyaf; (*b*), adrodd Gweddi'r Arglwydd neu'r Salm gyntaf; (*c*), ateb gofyniadau ar hanes Iesu Grist. Yn y drydedd safon (*a*), darllen geiriau deu sill yn gywir; (*b*), adrodd Gweddi'r Arglwydd a Salm xxiii.; (*c*), ateb gofyniadau ar hanes Iesu Grist. Yn y bedwaredd safon (*a*), darllen geiriau tair

a phedair sill; (*b*), adrodd y gwynfydau; (*c*), ateb gofyniadau ar hanes Iesu Grist. Yn y bummed (*a*), darllen adnodau o'r Beibl a dangos gradd o gyfarwydd-deb a'r Beibl; (*b*), adrodd y Deg Gorchymyn; (*c*), ateb gofyniadau ar hanes Iesu Grist. Yn y radd uchaf ni ddysgwylir ar un o'r safonau i fyned yn mhellach yn hanes Iesu Grist nâ charchariad Ioan, ac y mae'r gofyniadau yn mhob un o'r safonau dipyn yn galetach nâ'r gofyniadau a roddir i'r safon o'i flaen. Unwaith yn y flwyddyn (tua mis Ebrill) mae arholiad yn cael ei gynnal yn mhob Ysgol Sul fydd yn gofyn am hyny. Yn sicr, mae unrhyw blentyn sydd wedi meistroli gwaith y safonau uchod yn drwyadl wedi cael sylfaen rhagorol. Mae yn mhlith y Methodistiaid gynllun, neu, yn hytrach, gynlluniau cyffelyb i'r uchod; a'r un modd am y Wesleyaid. Gwyr pawb sydd yn gwybod rhywfaint am y ddau enwad olaf a enwyd am y modd trwyadl y gofalant fod eu plant yn cael addysg grefyddol dda pan yn ieuainc. Os nad wyf yn camsynied, rhaid i bob dyn a fyn ymaelodi gyda'r Wesleyaid yn gyntaf fod yn hyddysg yn egwyddorion eu crefydd. Ond ni chyfeiriaf yn mhellach yn awr at yr hyn a wneir ganddynt hwy. Yn nghymmydogaeth Manceinion mae nifer o Ysgolion Sul perthynol i'r enwad Undodaidd wedi ymffurfio yn undeb; ac er's blynyddau, bellach, mae'r undeb hwn wedi gwneyd llawer iawn o ymdrech i berffeithio y dull o gyfranu addysg i'r plant. Argreffir trefnlen yn flynyddol, yn yr hon yr enwir nifer o lyfrau—bywgraffyddol, hanesyddol, gwyddonol, duwinyddol, yn nghyd â rhanau o'r Beibl, megys un o'r efengylau—yn y rhai cynnelir arholiad ar ddiwedd y tymhor, sef yn y Gwanwyn. Mae'r arholiad yn cael ei gario yn mlaen trwy bapyrau, y rhai a anfonir i ddwylaw rhywun perthynol i'r Ysgol fydd yn cael ei harholi, ychydig amser cyn yr arholiad; bron yr un fath ag y gwneir gan y *Science and Art Department*. Yn mhob pwnc mae tair gradd—isaf, canol, ac uchaf; ac anfonir i bob ymgeisydd llwyddiannus dystysgrif wedi ei harwyddnodi gan y swyddogion, i ddangos ei fod wedi llwyddo. Bum yn parotoi dosparth ar gyfer yr arholiad hon flynyddau yn ol, a bu'r oll yn llwyddiannus. Yr anfantais i Ysgolion Cymreig i fabwysiadu'r cynllun hwn ydyw, fod yr arholiad yn cael ei gario allan yn Saesneg. Er hyny, yn yr Ysgolion hyny lle y mae yn cael ei mabwysiadu yn rheolaidd, dywedir wrthyf fod y cynllun wedi troi allan yn llwyddiant perffaith yn mhob ystyr.

ATHRAW.

COFIO AM Y TLAWD.

PAN yn eistedd yn gysurus o amgylch y tân, a'r gogleddwynt llym yn chwythu y tu allan, y llynau yn llonydd o dan gloion o ia, a holl arwynebedd y wlad yn fantelledig gan eira, a ydym yn caniatau i'n meddyliau redeg allan, gan gofio am blant llai ffodus dynoliaeth, y rhai ydynt yn dyoddef oddiwrth oerfel a thlodi a chlefyd? Mor

ddiolchgar y dylem ni fod, y rhai ydym yn amser chwerw y Gauaf yn meddu tŷ i'n dyogelu, a gwisgoedd i'n cynhesu; a chenym ddigon o fwyd iachus i adnewyddu ein nerthoedd, a gwelyau cynhes a gobenyddiau esmwyth, i roddi melusder hûn, ac i wneuthur ein breuddwydion yn hapus! O'r tu arall mor druenus yw cyflwr y rhai hyny ydynt o herwydd tlodi, yn amddifad o'r cyfryw ddyogelwch; heb dŷ na thwlc, gyda prinder o ddillad i gadw eu haelodau crynedig rhag chwerwder yr hin—yn rhy wylaidd i wneuthur eu hangenion yn hyspys, ac heb ganddynt gyfaill i sirioli eu hysprydoedd llesg, nac i eswmythau eu heneidiau cystuddiol gyda geiriau o obaith.

Cofiwn, cofiwn am y tlawd, llwm ei gartref, prin ei fwyd,
Rhoddwn gydymdeimlad brawd i wresogi'r wyneb llwyd.

Mae y tlodion genym bob amser, ac yn mhob ardal. Edrychwn am danynt, dangoswn iddynt gydymdeimlad sylweddol. Yr hen a'r methedig, y tlawd a'r angenus, dylent apelio atom yn effeithiol. Mae y Gauaf yn cynnyddu eu hangenion ac yn dwyshau eu dyoddefiadau. Wedi ein cyfoethogi gan yr Haf a'r Hydref, dylem deimlo yn hapus i allu rhoi cyfran i blant angen a thlodi. Ceisiwn ddysgu y wers mai mwy dedwydd yw rhoddi na derbyn. Pa fendith fwy all syrthio i'n rhan na'r fendith o fod yn alluog i wneuthur rhywbeth tuag at borthi a dilladu a chynhesu a dyddanu ein cydfforddolion ar y ddaear– helpu i yru ar ffo rai o'r gofalon sydd yn eu llethu, ac o bossibl eu hachub rhag syrthio yn gynamserol i afaelion marwolaeth. Brodyr o'r un bru ydym oll, plant yr un Tad, rhai yn edrych yn y blaen mewn gobaith am yr un nefoedd.

Gwyn fyd a 'styrio wrth y tlawd, ei Dduw a'i gwared ef;
A phan ddel arno ofid blin, Efe a glyw ei lef.

O Dduw, yr hwn wyt Dad pawb, dyro i ni gymhorth i gofio mai dy blant Di ydym ni oll, a brodyr y naill i'r llall. Ti a greaist o un gwaed bob cenedl o ddynion i breswylio ar holl wyneb y ddaear—Iuddew a Groegwr, Barbariad a Scythiad, hen ac ieuanc, cyfoethog a thlawd, dy blant ydynt oll, a phobl dy ofal. O Dduw, dyro i galon pob yr un o honom gynhesu mewn cydymdeimlad a phlant angen a thlodi, yn mhob man, gan gofio fod hwnw yn gymmydog ac yn frawd, pwy bynag fo mewn angen am ein cynnorthwy. Par ein bod bob amser yn barod i ymddwyn at arall fel y carem fod arall yn ymddwyn tuag atom ni. Dyro i ni nerth ac ewyllys i gyflawni pob dyledswydd, ac i faddeu i ereill megys y dysgwyliwn ein hunain gael maddeuant genyt Ti, Ein Tad, &c.

Ni rydd yr Arglwydd ar d'ysgwydde
Drymach pwn nag allech odde';
Ond fe ddengys rhyw ddiangfa
Pan fo'r groes yn gwasgu dryma'.

LLINELLAU

Ar briodas fy nghyfaill, y Parch. D. J. Williams, Merthyr, â Miss Annie Saunders, Newark.

'Rwy'n canu heno ar hoff destyn serch;
Nid oes un tristwch yn cymmylu'r gân;
Mynwesol gariad ieuainc mab a merch
Yn undod mwyach wnaeth y ddeuddyn glân.

Fy mrawd-bregethwr, ysgafn yw dy fron:
Ni rydd un gofid heno iti loes;
Ti ge'st yn eiddo dy gariadferch lon
Fydd iti yn ymgeledd drwy dy oes.

Boed ichwi sugno hyfryd laeth mwynhad
Tra'n llawen yn cyd-deithio hyn o fyd,
A boed i daith eich priodasol stad
I fod yn daith o wynfyd ar ei hyd.

Boed fythol wyrdd eich cariad, ddeuddyn mwyn,
Cryfhäed fel yr iorwg ar y mur,
A pherarogled mewn hyfrytaf swyn
Fel yn yr Haf y gwna y rhosyn pur.

Diweddaf weddi eich anwylaf fardd
Yw hon:—O Dduw, gwna'u cadw rhag pob croes;
Bydd i fy nghyfaill a'i wen rian hardd
Yn dŵr ac amddiffynfa drwy eu hoes.

Nos Iau, Rhag. 5. IVOR DAVIES.

NODYNAU GWASGAROG.

CREDO Y METHODISTIAID.

Ymddangosodd y paragraff canlynol yn ddiweddar yn y *Tyst*:—

"Syna rhai ddeall fod mab i un a fu yn flaenor enwog a phrif gyhoeddwr y Corff yn y Gogledd am flynyddoedd wedi ymuno â'r Undodwyr yn y Rhondda. Cyfrifir ef yn wr deallus, ac yn alluog i farnu drosto ei hun. Y rheswm a rydd dros fyned drosodd ydyw y gwahaniaeth yn y gredo. Dywedodd un o'r diaconiaid pan glywodd hyn:—'Doedd dim raid iddo fyned o gwbl yn herwydd y gredo, oblegyd 'does gan yr Hen Gorff ddim credo yn awr."

Deallwn mai Mr. Maelor Evans, Cyfreithiwr, yn y Rhondda, yw y boneddwr uchod. Y mae Mr. Evans, wedi darlithio yn amryw o'n capelau yn ddiweddar ar "Calfin a Serfed."

"COLLECTANEA:

Neu | Gasgliadau | o Flodeuog Daith | yr | Awduron Brytanaidd | &c. | yn ddau lyfr | gan Morgan Williams | Curad Bayfil, Swydd Dyfed. | Caerfyrddin: Evans, 1820. |" 52 tdd.

A oes rhywun wyr rhywbeth am y Curad M.W.?
Wele ddyfyniadau allan o'r llyfr:

"Ffydd wreiddiol, wrol, a'r weddi—heb lid,
Ffydd a blodeu arni;
Ffydd heb un awr ddiffoddi,
Ffydd gref, ag i'r nef â ni.

Fal pren per dalier rhwng dolydd—a ffrith
Yn dwyn ffrwyth meluswedd:
Felly pob gweithred ddedwydd,
Glan a phur a ganlyn Ffydd.—2 Petr i, 5-8."

"AR DDYN ANHRUGAROG,

Dyma lle gorwedd, fe gyfyd wrth wys,
Y rhan ag sydd farwol o gorff Sion Evan Rhys;
Os cas ef drugaredd, mae'n rhyfedd yn bod,
Ni wnaeth ef drugaredd ag undyn erioed."

"AR GELWYDDWR,

Celwyddog fum i yn y byd,
Lle rhoes fy mryd ar wegi;
Ond gwae im' weithian yn y bedd—
O'r diwedd rhaid im' dewi."—

COLLECTANEA, 1820.

LLYNCU LLATHEN O DIR.

"Dic, dere i gael peint o gwrw," ebai gweithiwr ar y rheilffordd wrth ei gydymaith. "Na ddof wir, Jac, 'alla' I ddim meddwl yfed llathen ysgwar o dir da, gwerth £60 10s. yr erw," ebe Dic. "Beth yw hynyna wyt ti'n ei ddweyd, Dic," ebe Jac. "Wel, pob tair ceiniog wyt ti yn wario, yr wyt yn gwario digon i brynu llathen

ysgwâr o dir." Yna cymmerodd Dic ei raw a dangoswyd i Jac pa fodd yr oedd hyny yn bod. "Y mae 4,840 o latheni ysgwâr mewn erw—hyny dair gwaith a wnelir 14,520 o geiniogau—1,210 o sylltau, neu trigain punt a chweigain. Ac er yr holl lyncu, nid oes dim o'u hol i'w ganfod."

— —

Y LLYFR EMYNAU A THONAU NEWYDD.

Mr. Gol.,—Byddwch garediced a chaniatau i mi ofod fechan o'r Ymofynydd i draethu fy llen ar y testyn uchod. Yn y Gymmanfa Flynyddol ddiweddaf, a gynnaliwyd yn Mhontypridd, dewiswyd fi yn un o'r pwyllgor i ddwyn allan y llyfr dan sylw. Detholais tua 300 o emynau, a danfonais hwynt yn amserol atoch chwi, sef ysgrifenydd y pwyllgor, erbyn y cyfarfodydd chwarterol diweddaf, a gynnaliwyd yn Nghapel y Groes, pryd y dywedwyd fod y pwyllgor yn ymgyfarfod. Bum yn erfyn clywed beth a wnawd gan y pwyllgor parthed y llyfr, ond ni chlywais na siw na miw o'r helynt hyd at ryw bythefnos yn ol, pryd yr hyspyswyd fi yn ddamweiniol ddarfod i'r pwyllgor, wedi ychydig fynydau o ymgynghoriad, ohirio'r mater hyd y cyfarfodydd chwarterol nesaf. Yn awr, nid oes cyfarfodydd chwarterol yn bod y Nadolig. Bydd y cyfarfodydd nesaf yn niwedd Mawrth, pryd y dysgwylir i'r pwyllgor ymgyfarfod yr ail waith, a siarad ychydig eiriau ar y mater, ac yna i ohirio'r pwnc hyd y cyfarfod chwarterol dylynol yn niwedd Mehefin, ac felly yn y blaen, ac felly yn y blaen. Yn ol y *rate* hon o weithredu, pa bryd y daw'r llyfr ag sydd a chymmaint o'i angen ar ein henwad allan? Adwaenwn gyfaill i mi pan yn y coleg, yr hwn a feddai fwy o farddoniaeth nac o synwyr cyffredin yn ei benglog, a arferai ddweyd y buasai "pen tragwyddoldeb yn gwynu" cyn y buasai efe yn meistroli yr iaith Hebraeg; ac yr wyf yn credu y gellir defnyddio yr un ffigwr mewn perthynas â'n llyfr emynau, a dweyd yn onest y bydd "pen tragwyddoldeb yn gwynu" pan y daw allan o'r wasg.

Fel un o bwyllgor y llyfr emynau newydd yr wyf yn rhoddi yr awgrym hon yn garedig i'n holl eglwysi. Sicr wyf na ŵyr yr annghyfarwydd am y gwaith llafurfawr a dyfalbarhaol ag y mae llyfr o'r fath yn hawlio. Ond drachefn, pa eisieu llyfr emynau a thonau newydd sydd arnom fel enwad pan y mae un yn barod i'r wasg gan Mr. Eiddil Jones? Gwyddom bellach, neu o leiaf dylem wybod, er ein holl genfigenau, mai efe ydyw'r cerddor a'r arweinydd goreu a fedd ein henwad yn Nghymru. Credaf nad yw hyn yn gofyn un *quod est demonstrandum*. Y mae efe er's pymtheg mis wedi bod yn diwyd lafurio i gael llyfr newydd i'r enwad. Yn mis Tachwedd, 1894, sylwais ar erthygl o'i eiddo yn Yr Ymofynydd yn mynegi ei fod wedi cytuno a Mr. Hughes, Wrecsam, ac ereill, yn nghylch amryw donau. Yn Ionawr, 1895, cofus genyf weled llith arall o'i eiddo yn hyspysu ei fod wedi dechreu ar y llyfr, ac wedi myned i gryn lawer o gost. Yn Yr Ymofynydd am Mai, gwelaf

lythyr arall oddiwrtho. Yn nechreu Gorphenaf, cynnaliwyd y Cyfarfodydd Blynyddol yn Mhontypridd, ac ni soniwyd cymmaint a gair am y ffeithiau a nodwyd, nac ychwaith am y drafferth a'r draul i ba rai yr oedd Mr. Jones, yn ei gariad at yr enwad, wedi myned iddynt. "This is the most unkindest cut of all."

Yn awr, yr wyf wedi clywed rhai pobl yn dweyd mai y rheswm eu bod yn erbyn llyfr Mr. Jones yw hyn—nad oedd wedi ymgynghori a'r enwad cyn cychwyn ar ei anturiaeth. Os nad wyf yn camsynied, mae ereill o ewyllyswyr da yr enwad wedi cymmeryd mewn llaw, heb ymgynghoriad, anturiaeth sydd, wedi hyny, wedi troi allan yn fendith werthfawr. Meddyliasant fod angen am ryw fudiad, ac ymdrechasant fod yn effro i'r achlysur. Gadewch i ni, fel enwad Undodaidd, o bawb, fod yn rhydd o genfigen a chydnabod teilyngdod ac hunan-aberth. Pwy fel Mr. Jones sydd wedi llafurio gyda'n cymmanfaoedd canu? I bwy y mae cerddorion Morganwg a Cheredigion yn ddyledus am yr uchel-wyliau anrhydeddus ydynt hwy a ninau wedi fwynhau? Gadewch i ni fod yn Undodaidd, cariadus, a diolchgar.

Cefais y fraint yn ddiweddar o weled llyfr Mr. Jones fel y mae yn barod i'r wasg, ac ni ddychymygais fod y fath lafur wedi bod yn angenrheidiol. Y mae, heblaw hyn, wedi talu o'i logell ei hunan am 50 o donau newyddion oddiwrth rai o'r prif gyfansoddwyr yn y byd cerddorol, ac y mae ambell i dôn wedi hawlio'r swm o dri neu bum' gini. Yn mhlith y lluaws cyfansoddwyr, sylwais ar yr enwogion a ganlyn:—Dr. Martin, Dr. Reynolds, Dr. Parry, Dr. Dykes, &c., &c. Y mae efe hefyd wedi cael caniatad i ddefnyddio rhai o'r emynau goreu allan o gasgliadau y gwahanol enwadau.

Byddwn Undodiaid am unwaith, a rhoddwn archeb am 3,000 o gopïau i Mr. Jones. Yr wyf yn dilys gredu y bydd hwn yn *Standard Hymn Book* yn mhen can' mlynedd i ddyfod.

Ar air a chydwybod,

IVOR DAVIES.

O.Y.—Yr wyf fi fy hun, ar ol gweled y fath lyfr rhagorol gan Mr. J., yn nghyd a'r draul y mae wedi myned iddi, yn ymddiswyddo o'r pwyllgor arall. Yr wyf wedi clywed hefyd eich bod chwithau, Mr. Gol., yn gwneyd hyny? A oes gwir yn y stori?—I. D.

Manion ac Hanesion.

ABERDAR (HIGHLAND PLACE)—Deallwn fod yn mwriad y cyfeillion yn y lle hwn i adnewyddu eu capel. ac er mwyn chwyddo ychydig ar y *funds*, cynnaliwyd *bazaar* yn y *Crown Court* ar y 19ef o Ragfyr. Yr oedd y mudiad dan nawdd prif foneddigion yr ardal. Cyhoeddwyd y *bazaar* yn agored gan Mr. G. Carslake Thompson, o Gaerdydd. Bu boneddigesau yr eglwys, yn enwedig, yn hynod weithgar am fisoedd lawer, yn prysur barotoi ar gyfer yr wyl, a chawsant yr hyfrydwch o weled llwyddiant mawr ar eu gwaith.

CWM CLYDACH.—Mae y brodyr Undodiaid yn y lle hwn wedi dechreu addoli yn eu capel newydd.

PENTRE.—Rhoddodd rhyw gymmwynaswr haelfrydig—nis gwyddys ei enw—*organ* newydd ardderchog yn anrheg i'r capel Undodaidd yma. Disgyned ei yspryd ar lawer ereill, o'i fath.

PENTRE RHONDDA.—Nos Sul, Rhag. 1, yn Ysgoldy y Bwrdd, traddododd Mr. Maelor Evans, cyfreithiwr, a *commissioner of oaths*, ddarlith ar y testyn, "John Calvin a Michael Servetus" Yr oedd iawnffyddwyr yn bresennol yn gwrando ar Mr. Evans. Y mae efe wedi teithio'r cyfandir, ac wedi bod yn sefyll ar yr ysmotyn y llosgwyd Servetus arno. Yr oedd anadl pob un o'r gwrandawyr megys yn ei dwrn wrth wrando ar hyawdledd y darlithiwr, a dywedodd un "rhydd-feddyliwr" wrthyf iddo dynu y dagrau o'i lygaid pan yn desgrifio merthyrdod Servetus. "Dyna'r diafol mwya' dideimlad a glywais son am dano erioed," meddai'r cyfaill wedi iddo ddod allan o'r cwrdd, gan gyfeirio, wrth gwrs, at apostol mawr y Calfiniaid. Newydd droi at yr Undodiaid y mae Mr. Evans. Bu un amser yn pregethu gyda'r Methodistiaid cyn yr wyf yn meddwl iddo fyned yn gyfreithiwr. Yr oedd ei dad yn un o'r dynion mwyaf enwog gyda'r holl enwad Methodistaidd Efe ydoedd cyhoeddwr ei brif gylchgronau. Y mae Mr. Evans yn un o aelodau mwyaf selog a gweithgar ein hachos yn Mhentre Rhondda. Testyn ei ddarlith nesaf fydd "Dydd Sanct Bartholomew." Bydd ein cyfarfodydd agoriadol yn cymmeryd lle y Sul a'r Llun cyntaf o Chwefror, pryd y gobeithia'r eglwys y bydd ein holl weinidogion, hen ac ieuainc, yn bresennol. —Cymmer cyfarfodydd agoriadol Cwm Clydach le y Sul a'r Llun cyntaf o Ionawr, pryd y dysgwylir i Mr. J. Davies, Mr. R. J. Jones, M.A., Mr. James, B.A., ac ereill, wasanaethu.

ABERDAR.—Yn ystod yr wythnosau diweddaf traddodwyd cyfres o ddarlithiau ar bynciau perthynol i'n ffydd yn yr Hen-Dy-Cwrdd gan weinidogion y cylch. Y ddarlith gyntaf, ar "Y Duw a addolwn," a draddodwyd gan y gweinidog, y Parch. R. J. Jones, M.A; yr ail ar "Paham wyf yn Undodwr," gan y Parch. Jenkyn Thomas; y drydedd ar "Beth yw y Beibl?" gan y Parch. W. Griffiths, B.D., Ph.D.; a'r olaf ar "Iesu o Nazareth" foreu y Nadolig, gan y Parch. Hathren Davies. Tynodd y gyfres gryn sylw, a gobeithiwn y deillia lles o honi.

ABERDAR.—Nos Iau, Rhag. 12, traddododd y Parch. R. J Jones, ddarlith odidog yn yr Hen-Dy-Cwrdd ar ei ymweliad â'r Aifft a Chanaan Llywyddid gan Mr. E. D. Howell, Gelli Isaf. Ai yr elw er mwyn helpu aelod o'r gynnulleidfa, yr hwn sydd wedi methu dylyn ei waith er's yspaid hir o herwydd afiechyd trwm.

CEFN COED.—Mae y gweinidog yma yn traddodi cyfres o ddarlithiau, sydd yn tynu sylw, ac yn cael eu gwrando yn awyddus gan dorf o bobl astud.

DOWLAIS.—Mae yr ychydig gyfeillion ffyddlon yn y lle hwn newydd ail-baentio eu capel, ac wedi bod am dymhor yn cynnal eu cyfarfodydd yn yr ysgoldy. Ar y Sul, y 15fed o Ragfyr, cafwyd cyfarfodydd agoriad y capel, pryd y pregethwyd yn y boreu a'r hwyr gan y Parch. J. Davies, Alltplaca, ac yn y prydnawn, yn Saesneg, gan y Parch. D. J. Williams, Merthyr. Cawsom oedfaon da.

PONTYPRIDD.—Rhag. 12, cynnaliwyd y cyfeillion Undodaidd yn y lle hwn ei gwyl dé flynyddol, ac yn ystod y cwrdd cyhoeddus yn yr hwyr, dan lywyddiaeth Mr. G. Carslake Thompson, cyflwynwyd i Mr. J. M. Thomas, sydd yn bresennol yn efrydydd yn Rhydychain, anrheg o lyfrau ardderchog, yn nhyd ag anerchiad wedi ei *framio* yn ddestlus iawn. Siaradwyd gan amryw yn ffafriol iawn am waith Mr. Thomas pan yn Mhontypridd: efe fu y prif offeryn i gychwyn y mudiad Undodaidd yn y lle. Cyflwynwyd yr anrheg gan Mrs. Thomas, yr hon sydd yn un o'r aelodau hynaf yn yr eglwys hon. Dymunai pawb lwyddiant mawr i Mr. Thomas yn ei yrfa golegawl.

CEFN COED (Y CAPEL NEWYDD.—Yr ydym ni yma am wneyd yn hyspys i'r lluaws cyfeillion a fuont mor garedig â'n helpu i adeiladu ein capel newydd, fod y capel wedi costio oddeutu £760, a'n bod yn rhydd o ddyled. Ar ran y gynnulleidfa, a throswyf fy hun, yr wyf yn diolch yn fawr i bawb yn Nghymru a gyfranasant at eu hachos, ac a'n helpasant i gael capel prydferth yn rhydd o ddyled.

J. HATHREN DAVIES.

PRIODAS.—Rhag. 5, gan y Parchn. Mr. Hodges, Newmark, a W. E. Addis, M.A., High Pavement Chapel, Nottingham, unwyd mewn glân briodas y Parch. D. J. Williams, Merthyr, â Miss Annie Saunders, merch yr Henadur John Saunders, Yswain, Newark, Swydd Nottingham.

Marwgofion.

Rhagfyr 4, yn nhy ei merch yn Drover's Road, Llanbedr, Mrs. Mary Jones, gweddw y diweddar Daniel Jones, gwaudd, Barley Mow, Llanbedr, yn 76 mlwydd oed. Blin i'r galon yw tori cyssylltiadau agos ac anwyl y bywyd hwn, ond wedi i'r corff fyned yn fethedig, ac i'r cof ballu ar ol llafur caled hir flynyddoedd, dywed rheswm mai gwell oedd cael myned adref i'r orphwysfa dawel ac i fynwes anwyliaid hoff oeddent wedi croesi'r afon, er i ereill gael eu gadael am dymhor mewn tristwch a galar. Nid oedd yn berffaith, ond nid ydym yn gwybod am nemawr y gellir dywedyd am dani gyda mwy o briodoldeb, "Hyn a allodd hon hi a'i gwnaeth." Bu'n briod ffyddlon ac yn fam dyner ac hynod ymdrechgar dros ei phlant yn ngwyneb anfanteision nad yw tadau a mamau y dyddiau hyn yn gwybod ond ychydig am danynt. Er iddi oroesi ei hanwyl briod am ychydig dros ddeg mlynedd, ni fu'r ysgariad am ddim iddi hi, ond gadawodd ei ol yn fawr arni. Claddodd wedi hyn ddau o blant. Bu'n aelod ffyddlon am flynyddau lawer o eglwys Caeronen, ac ar ol hyny o'r eglwys fu'n cyfarfod am dymhor yn Tynrheol, yn Llanbedr, cyn i gapel Brondeifi gael ei adeiladu, ac oddiar yr agorwyd y capel hwnw, bu'n aelod yno am yn agos i ugain mlynedd, ac yr oedd braidd bob amser yn bresennol yn mhob cyfarfod, hyd y nod wedi iddi braidd fyned yn rhy analluog i symmud o fan i fan—i symmud un droed heibio i'r llall. Anaml y byddai ei lle'n wag, hyd nes y methodd o'r diwedd yn llwyr, ond yr oedd ei chalon yno etto; dangosai hyn fod ganddi sêl a chariad at y lle, ac at waith y lle. Felly, mae un arall o sylfaenwyr yr achos newydd yn Mrondeifi wedi ymadael, ond gobeithiwn y daw yma rywrai i lanw lle'r hen ffyddloniaid. Gadawodd i alaru ar ei hol bump o blant, llawer o wyrion, heblaw perthynasau ereill. Ar ddydd ei hangladd daeth torf luosog yn nghyd i ddangos eu parch i'r ymadawedig ac i gydymdeimlo â'i galarwyr. Claddwyd yn mynwent Brondeifi, a gwasanaethwyd yn y ty a'r capel gan y gweinidog, ac ar lan y bedd gan Mr. Evan Walter Thomas, o Goleg Caerfyrddin, ac ŵyr i'r ymadawedig.

Rhagfyr 11, David John, anwyl fachgen Jenkin Morgan, Craigtrebanos, yn 16 oed. Daearwyd yr hyn oedd farwol o hono y Sadwrn canlynol yn mynwent Gellionen, pryd y gwasanaethodd y Parchn. T. Fisher Jones, Cwmbach, a J. T. Davies, Pontardawe (A.); pregethodd y cyntaf, a dylynwyd ef mewn gweddi gan yr olaf, ar yr amgylchiad, yn ddylanwadol iawn. Dyoddefodd y bachgen tua deg wythnos o gystudd caled iawn; a gwelodd gladdu ei fam pan oedd tua chwe' mlwydd oed, ac y mae, ni a obeithiwn, wedi cael cwrdd â hi wyneb-yn-ngwyneb ar ororau anfarwoldeb, y tu draw i dywyllion leni'r bedd. Bydded i gariad Duw gael lle derbyniol yn nghalonau y tad, a'r teulu, a'r holl berthynasau yn absennoldeb yr ymadawedig ieuanc.

I ffordd y ffyrdd daeth David John,
Gan adael lloniant bydol;
A thrwy yr hen Iorddonen gref
Ar frys i'r nef dragwyddol.

Rhagfyr 12, yn 26 oed, John Davies Blaencefel, ar ol byr gystudd. Y Sadwrn canlynol daeth torf luosog yn nghyd i hebrwng ei weddillion i gladdfa Pantdefaid, pryd y pregethwyd ar yr achlysur gan y Parch. T. Arthur Thomas. Derbynied y perthynasau oll ein cydymdeimlad dwfn yn eu galar.

Rhagfyr 14, yn sydyn iawn, yn 85 oed, John Evans, Maes-yr-ehedydd, Llanwenog. Claddwyd y Mercher canlynol yn Mynwent Alltplaca, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog, yn cael ei gynnorthwyo gan y Parch. E. E. Jenkins, Capelgroes. Daeth tyrfa fawr yn nghyd i'r angladd, i amlygu eu parch i goffadwriaeth dyn ag oedd wedi arwain bywyd rhinweddol drwy ystod ei ymdaith faith yn y byd. Bu'n ffyddlon hyd angeu, a chymmerwyd ef gan ei dad o'r nef i dderbyn coron anniflanedig y gogoniant. Lluoedd o gyffelyb yspryd a gyfodont etto i lanw'r lleoedd a wneir yn weigion fel hyn gan ymadawiadau yr hen bererinion sydd wedi dianc ychydig o'n blaen; a Duw'r tadau fyddo'n Dduw i'r plant sydd yma'n galaru ar eu hol.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.



Yen-Dy-Cwrdd, Cefn.